**Atodiad 6**

# Asesiad Effaith Cymdeithasol

# Ardoll Ymwelwyr Gwynedd

## 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae Cyngor Gwynedd yn ystyried cyflwyno Ardoll Ymwelwyr ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr cymwys yn unol â Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025, gyda'r bwriad o gefnogi economi ymweld gynaliadwy a sicrhau bod manteision twristiaeth yn cael eu rhannu'n decach rhwng ymwelwyr a chymunedau lleol.

Mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar **yr effaith gymdeithasol** bosibl ar bobl, cymunedau a grwpiau gwarchodedig yng Ngwynedd, gan ystyried manteision, risgiau a mesurau lliniaru.

## 2. Amcanion yr Asesiad

Nod yr Asesiad Effaith Cymdeithasol yw:

- Asesu effaith bosibl yr Ardoll Ymwelwyr ar gymunedau lleol, llesiant cymdeithasol a mynediad teg at wasanaethau
- Nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol ar grwpiau gwahanol, gan gynnwys grwpiau gwarchodedig
- Argymell mesurau lliniaru i leihau unrhyw effeithiau negyddol posibl
- Sicrhau bod egwyddorion tegwch, cynhwysiant a llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn ganolog i'r penderfyniad

## 3. Disgrifiad o'r Ardoll Ymwelwyr

Cynigir y bydd yr Ardoll:

- Yn cael ei godi fesul person, y noson ar arosiadau dros nos mewn llety cofrestredig
- Gyda cyfraddau gwahanol ar gyfer mathau o lety (e.e. hosteli a meysydd gwersylla) a eithriadau penodol megis:
    - Arosiadau hirdymor
    - Llety argyfwng
    - Darpariaethau ad-daliad ar gyfer pobl anabl sy'n teithio gyda gofalwr

- Bydd yr incwm yn cael ei ail-fuddsoddi'n lleol ar sail blaenoriaethau a gytunir drwy Bartneriaeth Fforwm Ardoll Ymwelwyr Gwynedd.

**4. Llinell Sylfaen Gymdeithasol**

Mae Gwynedd yn sir:

- Gyda chymunedau cryf eu hunaniaeth, iaith a diwylliant Cymraeg
- Sy'n profi pwysau tymhorol sylweddol mewn rhai ardaloedd oherwydd lefelau uchel o ymweliadau
- Lle mae twristiaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflogaeth, ond hefyd yn gallu:
    - Gynyddu pwysau ar wasanaethau lleol
    - Effeithio ar fforddiadwyedd tai a chydlyniant cymunedol
    - Creu tensiynau rhwng anghenion ymwelwyr a trigolion
- Bu i 997 o drigolion Gwynedd ymateb i Holiadur Trigolion Gwynedd: Barn ar Dwristiaeth yn 2025 gan nodi'r ymatebion canlynol sy'n berthnasol i elfennau cymdeithasol:
    - 69.5% yn byw mewn cymuned ble mae twristiaid yn ymweld yn aml
    - 74.1% yn credu bod twristiaeth yn cael mwy o ganlyniadau cadarnhaol na negyddol ar eu cymuned
    - 85.7% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar yr economi leol
    - 83.2% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar gyflogaeth
    - 67.1% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar bywiogrwydd y gymuned
    - 59.9% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar ansawdd bywyd
    - 21.2% yn credu bod dylanwad niwtral ar ansawdd bywyd
    - 39.4% yn credu bod dylanwad cadarnhaol ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig
    - 35% yn credu bod dylanwad niwtral ar y Gymraeg a diwylliant Cymreig
- O'r 380 oedd yn credu bod dylanwad negyddol ar eu cymuned, rhain oedd y prif faterion:
    - 67.1% - Materion Traffig
    - 63.9% - Materion Parcio
    - 53.8% - Colli'r tai sydd ar gael mewn cymunedau er budd llety tymor byr
    - 50.5% - cynnydd ym mhrisiau tai

    - 48.5% - tyrfaoedd o bobl
    - 38.3% - colli dilysrwydd eich ardal, gan wanhau ei hunaniaeth leol, ei hiaith a'r ffordd o fyw
    - 27.5% - cynnydd mewn costau byw
    - 28.8% - materion diogelwch, ymddygiad amharchus
    - 21.7% - sŵn
    - 21.9% - llygredd golau

Fel rhan o waith datblygu Cynlluniau Ardal Ni fe nododd 10 allan o 13 Ardal bod twristiaeth gynaliadwy yn flaenoriaeth yn eu hardaloedd.

**5. Effeithiau Cymdeithasol Cadarnhaol Posibl**

**5.1 Budd i Gymunedau Lleol**

- Creu ffynhonnell incwm pwrpasol i fuddsoddi mewn:
    - Seilwaith cymunedol
    - Mannau cyhoeddus, canol trefi a phentrefi
    - Gweithgareddau diwylliannol a chymunedol

**5.2 Gwell Llesiant Cymunedol**

- Gall ail-fuddsoddi'r incwm helpu:
    - Rheoli pwysau ymwelwyr
    - Gwella ansawdd bywyd trigolion mewn ardaloedd poblogaidd
    - Cefnogi mentrau lleol sy'n cryfhau cydlyniant cymdeithasol

**5.3 Cefnogi'r Gymraeg a Diwylliant Lleol**

- Potensial i dargedu buddsoddiad mewn:
    - Mentrau diwylliannol
    - Digwyddiadau cymunedol
    - Seilwaith sy'n cryfhau defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg

**6. Effeithiau Cymdeithasol Negyddol Posibl a Risgiau**

**6.1 Tegwch a Chynhwysiant**

- Gallai'r Ardoll:
    - Effeithio'n anghymesur ar ymwelwyr incwm is neu deithwyr ar gyllideb

    - Greu pryderon am fforddiadwyedd gwyliau, yn enwedig i deuluoedd neu grwpiau penodol (risg a nodwyd hefyd gan Lywodraeth Cymru)

**6.2 Effaith ar Fusnesau Bach**

- Busnesau llety bach neu gymunedol:
    - Gallent bryderu am effaith ar alw os ydi ymwelwyr yn dewis peidio ymweld â Gwynedd
    - Gallai fod angen cymorth cyfathrebu a chysondeb er mwyn egluro diben yr Ardoll

**6.3 Canfyddiad Cymunedol**

- Heb gyfathrebu clir, gallai fod risg:
    - I'r Ardoll gael ei weld fel "treth dwristiaeth" yn hytrach na mecanwaith buddsoddi cymunedol

**7. Effaith ar Grwpiau Gwarchodedig**

- **Pobl anabl**: Mae darpariaethau ad-daliad yn lleihau effaith negyddol bosibl
- **Pobl Ifanc**: Buddsoddi mewn gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn gallu creu budd anuniongyrchol
- **Pobl Hŷn**: Gwell seilwaith a mannau cyhoeddus yn gallu cefnogi llesiant
- **Grwpiau Incwm Isel**: Mae'r risg o effaith negyddol ar fforddiadwyedd yn gofyn am fonitro parhaus

**8. Mesurau Lliniaru ac Atgyfnerthu**

Cynigir y mesurau canlynol:

- Ymgynghori cymunedol trylwyr a pharhaus ar flaenoriaethau buddsoddi
- Cyfathrebu clir bod incwm yr Ardoll yn:
    - Cael ei gadw'n lleol
    - Cael ei fuddsoddi er budd cymunedau a llesiant
- Monitro effaith gymdeithasol yn rheolaidd wrth adolygu'r Ardoll
- Creu Fforwm Partneriaeth Ardoll Gwynedd i sicrhau cyfranogiad cymunedol

**9. Casgliad**

Yn gyffredinol, gall mabwysiadu Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd gael effaith gymdeithasol gadarnhaol sylweddol, ar yr amod:

- Bod egwyddorion tegwch a chynhwysiant yn ganolog
- Bod yr incwm yn cael ei dargedu'n glir tuag at fudd cymunedol
- Bod y Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n ystyrlon â chymunedau, busnesau a rhanddeiliaid

Gyda'r mesurau lliniaru priodol, mae'r Ardoll yn cynnig cyfle i gryfhau cydlyniant cymunedol a sicrhau economi ymweld sy'n gweithio'n well i bobl Gwynedd.

Bydd yr Asesiad Effaith Cymdeithasol hwn yn cael ei ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad ffurfiol i adlewyrchu barn ac unrhyw bwyntiau perthnasol a godir.